Pawen ddolurus

Caredigrwydd / diolchgarwch

Petai llew yn dod i mewn i'r ystafell, beth fuasech chi yn ei wneud? Gweiddi, sgrechian, rhedeg i ffwrdd? Ydi, mae gweld llew yn codi braw ac ofn arnom ni. Yn y stori hon cawn hanes un a ddaeth yn ffrind mawr i'r llew.

Ar gwr dinas Jericho roedd Gerasimus yn byw. Byw mewn mynachlog gyda mynaich eraill. Byddai'n treulio llawer o'i amser yn meddwl am Dduw. Bob dydd byddai'n crwydro o gwmpas y tir anial oedd o gwmpas y fynachlog. Pan fyddai'n dod yn ôl i'r fynachlog byddai wedi blino'n lân.

"Dydw i ddim am fynd am dro byth eto," meddai wrth y mynaich eraill.

Chwerthin am ei ben fyddai'r lleill. "Dyna beth mae Gerasimus yn ddweud bob tro ar ôl dod adref," meddai un o'r mynaich.

Ond dal i fynd am dro fyddai Gerasimus. Byddai'n cerdded milltiroedd bob dydd. Un diwrnod, wrth fynd ar ei deithiau, clywodd sŵn cwynfanus yn dod o ganol y creigiau. Stopiodd i wrando. Clywodd y sŵn unwaith eto.

"Mae yna rywun mewn poen yng nghanol y creigiau acw," meddai wrtho'i hun. "Efallai bod rhywun wedi syrthio ac wedi anafu."

Dringodd y creigiau'n ofalus rhag ofn iddo yntau anafu ei hun. Pan edrychodd dros ymyl y graig cafodd fraw. Yno'n gorwedd roedd llew mawr anferth. Trodd y llew ei ben ac fe welodd Gerasimus. Dechreuodd wneud sŵn cwynfanus unwaith yn rhagor. Roedd Gerasimus mewn tipyn o ofn.

"Beth sydd, yr hen lew?" gofynnodd Gerasimus yn bryderus.

Cododd y llew ei bawen. Gwelodd Gerasimus fod draenen ddu yn ei bawen.

"Wyt ti am adael i mi dy helpu?" gofynnodd y mynach.

Dechreuodd y llew gwynfanu unwaith yn rhagor, gan ddal ei bawen yn uwch ac yn uwch. Cerddodd y mynach yn araf tuag ato.

"Dal dy droed yn uwch i mi gael ei gweld hi'n well," meddai'r mynach wrtho.

Gerasimus

Yna'n araf ac yn ofnus cydiodd ym mhawen y llew. Agorodd y llew ei geg. Daeth braw mawr dros y mynach. "Beth petai'n ymosod arna i?" meddyliodd. Edrychodd ar ei ddannedd melyn miniog a'i dafod fawr goch.

"Dwyt ti ddim am wneud drwg i mi, nag wyt ti'r hen lew?" sibrydodd y mynach.

Daliai'r llew i gwyno. Plygodd y mynach ar ei liniau. Yn araf deg ceisiodd dynnu'r ddraenen ddu o'i bawen. Ymhen dim roedd wedi llwyddo. Cododd y llew ar ei draed ac edrych ar y mynach. Doedd Gerasimus ddim yn gwybod beth i'w wneud. Dechreuodd gerdded yn araf gan edrych yn ôl i weld beth oedd y llew yn ei wneud. Yn sydyn, dyma'r llew yn ei ddilyn. Roedd braidd yn gloff. Roedd ei bawen yn ddolurus. Daliai Gerasimus i gerdded a'r llew cloff yn ei ddilyn. Dechreuodd y mynach redeg. Dechreuodd y llew redeg hefyd. Pan gyrhaeddodd y fynachlog, roedd y llew wrth ei sodlau. Roedd ar y mynaich i gyd ofn y llew.

"Dwyt ti ddim yn dod â'r anifail yna i mewn i'r fynachlog," gwaeddodd un o'r mynaich. Ond ar ôl dyddiau, daeth y llew yn gyfeillgar iawn gyda'r mynaich i gyd. I ble bynnag y byddai Gerasimus yn mynd, byddai'r llew yn siŵr o'i ddilyn. Dyma ffordd y llew o ddweud wrth Gerasimus 'diolch yn fawr am fy helpu'.

"...bod yn barod i wneud unrhyw weithred dda..."
Titus 3:1

O Dduw,
diolch am anifeiliaid o bob math.
Gwna fi yn ffrind i bob anifail.
Amen.

Ydi o'n beth da ceisio dofi anifeiliaid gwyllt?
Beth am gadw adar neu anifeiliaid gwyllt mewn cawell?
Ydi hyn yn beth caredig i'w wneud?

Gerasimus